UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Diwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol cenedlaethol 2022 i 2025

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona Davies

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

Cyfeiriad e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:
UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, SY23 2EU

Dylid anfon ymatebion erbyn 28 Hydref 2022 i:

Y Gangen Datblygu Arweinyddiaeth
Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: LeadershipDevelopmentDatblyguArweinyddiaeth@llyw.cymru

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n cytuno y dylai fod diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol cenedlaethol yn ystod blynyddoedd academaidd 2022 i 2023, 2023 i 2024 a 2024 i 2025, er mwyn caniatáu i'r proffesiwn addysg gael rhagor o amser i ymwneud â dysgu proffesiynol wrth i newidiadau i'r system addysg (gan gynnwys mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol (ADY)) gael eu rhoi ar waith?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Rydym yn croesawu'r un diwrnod HMS ychwanegol er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno'r newidiadau sylweddol i'r system addysg. Mae angen amser ar athrawon a staff ysgolion i gynllunio a pharatoi ar gyfer y diwygiadau pellgyrhaeddol sy'n wynebu ein hysgolion. Mae'r cwricwlwm newydd yn gofyn i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain, felly mae angen amser ar gyfer sicrhau hynny. Nid oes gyfle i staff gyfarfod a thrafod pan fo disgyblion ar safle'r ysgol. Mae angen trafodaeth debyg hefyd yn sgil y diwygiadau ADY. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhai heriol i ysgolion ac mae llawer o amser wedi gorfod cael ei neilltuo i drefniadau/addasiadau yn sgil y pandemig. Pwysleisir pwysigrwydd y broses o ddatblygu'r cwricwlwm yn y canllawiau i'r Cwricwlwm i Gymru - *Dylai datblygu cwricwlwm fod wrth wraidd ymdrechion ymarferwyr, ysgolion a'r cenedl i godi safonau i bawb, mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad a sicrhau system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd.* O gofio hyn, mae'n hollbwysig bod athrawon yn cael y cyfle a'r amgylchiadau addas i fynd ati i ddatblygu'r cwricwlwm.

Mae diwrnod HMS yn ffordd o alluogi staff o fewn ysgolion ac o ysgol i ysgol i drafod, cynllunio, dod i benderfyniadau a pharatoi. Mae'n ffordd gost-niwtral o alluogi sesiynau trafod a chynllunio, gan nad oes yn rhaid trefnu athrawon cyflenwi.

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n cytuno y dylem ddarparu hyblygrwydd i ysgolion o ran amseriad y diwrnod HMS ychwanegol yn ystod blynyddoedd academaidd 2022 i 2023, 2023 i 2024 a 2024 i 2025? Os ydych yn anghytuno, rhowch fanylion yn y blwch sylwadau ategol.

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Byddai pennu dyddiad cenedlaethol yn hwyluso cydweithio rhwng ysgolion ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol a hyd yn oed rhwng consortia a phartneriaethau rhanbarthol.

**Cwestiwn 3** – Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn orfodol i unrhyw ddiwrnod HMS ychwanegol gael ei ddefnyddio yn gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu dysgu proffesiynol i gefnogi ein blaenoriaethau allweddol sef gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau ADY, a sicrhau tegwch yn ein system addysg? Os ydych yn anghytuno, rhowch fanylion yn y blwch sylwadau ategol.

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Byddai neilltuo'r diwrnod HMS ychwanegol i ddarparu dysgu proffesiynol i gefnogi'r blaenoriaethau allweddol yn sicrhau bod y materion hyn yn cael lle blaenllaw ar galendrau HMS ysgolion. Gan eu bod wedi eu clustnodi'n flaenoriaethau, mae'n bwysig bod amser penodol yn cael eu neilltuo iddynt.

**Cwestiwn 4** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol cenedlaethol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Byddai dyddiad cenedlaethol yn hwyluso cydweithio rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol a hyd yn oed rhwng consortia/partneriaethau rhanbarthol. Mae hynny wedi bod yn fanteisiol iawn yn y gorffennol. Gallai rhai ysgolion ddefnyddio'r dyddiau ychwanegol i ddarparu dysgu proffesiynol ar ddatblygu Cymraeg yn eu hysgolion fel rhan o'r Cwricwlwm neu ddatblygu arbenigedd mewn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â Chynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg – byddai'r uchod yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.
Mae nifer o dargedau heriol wedi eu gosod gan Lywodraeth Cymru, mewn perthynas â dysgwyr sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg a'u gallu i siarad y Gymraeg. Erbyn 2050 y nod yw y bydd 50% o ddysgwyr sy'n gadael y sector addysg statudol cyfrwng Saesneg yn 2050 yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Mae oblygiadau hyn yn fawr iawn, gan mai ychydig iawn o'r garfan hon sydd ar hyn o bryd yn dangos medrusrwydd yn yr iaith. Ymddengys fod y Llywodraeth yn ystyried mai'r cwricwlwm newydd i Gymru fydd y prif sbardun ar gyfer y diwygiadau pellgyrhaeddol hyn. Er mwyn gwireddu'r uchod mae angen cynllunio manwl iawn. Byddai'r diwrnod HMS ychwanegol yn gallu cyfrannu ryw ychydig at hyn.

**Cwestiwn 5** – Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Er mwyn sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i'r materion uchod, byddai angen rhagnodi'n benodol fod angen rhoi sylw i ddatblygiadau o ran y Gymraeg.

**Cwestiwn 6** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Bydd angen sicrhau bod athrawon cyflenwi yn cael mynediad at yr hyfforddiant sy'n digwydd ar y diwrnodau HMS. Byddai'n well o lawer eu bod yn derbyn yr hyfforddiant ar y cyd â'u cydweithwyr mewn ysgolion yn hytrach nag ar wahân dan fantell yr asiantaethau. |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐